# BARDD GWEINIDOG DYFEISYDD

## GWILYM ARTHUR JONES ar HYWEL TUDUR

FEL 'BARDD, pregethwr a dyfeisydd' yr hoffai Hywel Tudur ei ddisgrifio'i hun ond yr oedd iddo briodoleddau eraill hefyd. Ym Mlaenau Llangernyw, heb fod yn llawn bum milltir o Lanrwst i gyfeiriad Dinbych y ganed ef, mewn bwthyn ger y ffordd rhwng Pandy Tudur a Moelogan, neu'n fanylach rhwng Ty'n y Ffynnon a Bryn yr Orsedd.

Howell Roberts oedd ei enw ar lyfrau'r wlad ond bu cryn ddadlau ynghylch blwyddyn ei eni – ei fam o blaid 1840 a'i dad yn glynu wrth 1841! Hywel ei hun a rannodd yr ymrafael trwy ddyfarnu – heb ragor o lol – mai Awst 21 1840 ydoedd i fod. Adeiladydd oedd y tad a bu'r teulu, gan gynnwys wyth o blant, (Hywel oedd y trydydd) yn symud o bryd i'w gilydd gan y byddai'r tad yn cael hwyl ar godi a gwerthu tai.

Pentref bychan tlawd oedd Pandy Tudur yn ystod plentyndod Hywel Tudur ac eto yr oedd yno gryn weithgarwch. Yng ngwaelod yr allt o gyfeiriad Llanrwst yr oedd tri thŷ'n wynebu'r ffordd ar ben tri thŷ arall a'u hwynebau tua'r afon. Un ystafell oedd i bob tŷ a gweddwon unig neu hen lanciau a hen ferched unig yn byw ynddynt. Ymhlith y penillion a luniodd Hywel pan oedd yn hogyn y mae'r llinellau i 'Ddinas y Pandy':

*Mae ynddi rai hen lanciau,*
*A'u dillad yn rhwyg dyllau;*
*A naw hen ferch yn diodde cam –*
*Wrth ddisgwyl am fodrwyau.*

Mewn tŷ arall, yn nes at y bont, sef Tŷ'r Efail, trigai hen lanc a hen ferch. Brawd iddynt oedd gof y pentref ac o flaen ei dŷ yr oedd yr efail a'r ffordd yn arwain at allt serth arall heibio tafarn y 'Swan' hyd Pen y Banc a Phen y Fedw.

Rhaid oedd croesi'r bont i gyrraedd pen arall y pentref lle'r oedd Tŷ Newydd, Siop y Felin a phum tŷ ar y dde gyda dau dŷ to-gwellt ar y chwith, cyn cyrraedd y capel. Yn un o'r tai hyn y byddai'r gwehydd a'i wraig yn byw. 'Doedd ganddynt ond un ystafell lle y byddent yn gwau o fore gwyn tan nos a chysgu.

Heb fod ymhell fe welid gwneuthurwraig yr hetiau-gwellt-plethedig wrthi tra cadwai'r gŵr drol a mul i ddiwallu 'rhaib y Rhyl' am ednod a wyau.

Yr oedd yno hen ferch gibddall hefyd a deithiai'n rheolaidd o'r Pandy i'r Rhyl yn ei throl a mul gyda'i chawell yn orlawn o wyau ac ieir. Deuai hi â 'good manners' y Rhyl yn ôl i'r Pandy!

* * *

NID PENTREF marwaidd mohono a hawdd fyddai dod o hyd i amryw byd o grefftwyr o gwmpas y lle, – er enghraifft, dau grydd, dau deiliwr, dau siopwr, amaethwr, melinydd, cruswr, gof, saer coed, saer maen, gwehydd, lliflwr, cawellwr, dyrnwr, töwr, ffosiwr, gwthiwr, sadler, gweithwyr amaethyddol a'u teuluoedd. Yr oedd yr unig dafarn ar y pryd wedi ei throi'n siop.

Cymerai'r pregethwr (Dafydd Evans) waith rhwymo-llyfrau er mwyn 'cynorthwyo degwm bychan ei gil-dwrn' a chynnal ei deulu sef gwraig a chwech o blant.

Golygfa ddoniol fyddai gwylio'r "watchmaker" bach â'i lais fel taran yn diddori ei wraig dal gyda straeon am ei deulu. Plisman y pentre a ofalai am gadw'r heddwch gyda chymorth bloeddiadau chwyrn y gof pan âi direidi'r plant dros ben llestri.

Athrawon ar y ffordd i fod yn athrawon oedd y ddau y bu H.T. yn derbyn addysg ganddynt. Prin oedd llyfrau ar yr aelwyd – prinnach fyth yn yr ysgol ac felly araf a fu ei gynnydd. Ond yr oedd ynddo ddigon o grebwyll i allu mesur yn gywir.

Bu'n cynorthwyo Price y sgŵl i fesur tir a thai ac yn arbennig 'tir gwthio', ond ei dad a elwodd fwyaf ar ei help. Mae'n amlwg ei fod yn crapio'n sydyn neu ni fyddai Price wedi ei annog i fod yn "pupil teacher".

Yr oedd Hywel wedi mynd heibio'r oed i gael mynediad i Ysgol Rad Llanrwst. Nid oedd ond un llwybr arall yn agored iddo sef mynd i Ysgol Genedlaethol Abergele. Ac yno yr aeth i gael ysbaid arall o ysgol o dan gyfarwyddyd Mr Evans.

* * *

TYFAI'R awydd ynddo am bregethu a phan oedd tua thair-ar-ddeg oed fe ddechreuodd ymarfer ei ddawn drwy draethu o flaen twr o blant yn yr ysgol.

Tua 1853 fe sefydlwyd Cymdeithas Lenyddol yn ardal y Pandy a chafodd Hywel hwyl ar fyfyrio yng ngramadeg Caledfryn. Ar bwys ei rwyddineb yng nghynnwys y gyfrol fe enillodd 'Welsh Certificate' mewn arholiad a gynhelid o dan nawdd Coleg Hyfforddi Caernarfon ac yn sgil amodau yr "Old Code" fe ddeuai pum ceiniog y flwyddyn i'w ran am y gamp. Daeth i gyfarfod â Caledfryn ac fe'i cymhwysodd ei hun i fod yn fardd go iawn. Bellach yr oedd yn ddigon hyderus i'w alw ei hun yn 'Bardd Mawr y Pandy B.B.D.' sef Bardd Braint a Defod.

Cymhellwyd ef i fynd i'r Coleg Normal, Bangor ond gan mai mewn dau dŷ y cynhelid y coleg y pryd hwnnw 'doedd dim digon o le i'r un ar hugain o ddarpar athrawon a ddymunai ddod yno. Yn lle hynny penderfynodd dreulio tymor yng Ngholeg Hyfforddi Caernarfon lle bu Robert Roberts ('Y Sgolor Mawr') yn fyfyriwr flwyddyn neu ddwy o'i flaen.

Symudodd i Lanllyfni i gadw ysgol ond yr oedd yn awyddus i ymsefydlu yng Nghlynnog er mwyn cael bod o fewn cyrraedd i'w eilun, Eben Fardd. Ac i Glynnog yr aeth. O'r diwedd fe gâi gyfle i alw heibio i Eben Fardd a gadwai'r post ac ysgol y pentref.

* * *

MEDDWL aflonydd ac ymchwilgar oedd gan Hywel Tudur. Yn gynnar yn ei oes fe gymerai ddiddordeb dwfn mewn egwyddor hunan-symud – dyna fel y disgrifiai ef 'perpetual motion'. Fyddai'n ddim ganddo dreulio oriau bwygilydd yn llofft y Felin yn pwyso blaen ei ffon ar y strapiau lledr a oedd am yr olwynion coed uwch ei ben. Eto fyth fe lyncwyd y bardd a'r pregethwr gan y dyfeisydd.

Fwy nag unwaith fe fentrodd i berfedd olwyn y felin pan na fyddai dŵr arni a cherdded i fyny'r cant er mwyn ei throi. Felly y gallai astudio'r modd i gael pwysau marw ar olwynion neu draed a fyddai'n symud i ganlyn tro'r olwyn 'heb i'r pwysau gilio'n ôl gyda'r tro na'i wrthatal'.

Dyfeisiodd amryw byd o beiriannau gyda help seiri coed a gofaint ond yn amlach na pheidio ef ei hun a'u gwnâi. Pam fod pethau'n symud ar eu pennau eu hunain – dyna'r hyn a gorddai ei feddwl. Ni allai ddirnad pam fod bydoedd dirifedi'r greadigaeth yn hunan-symudol.

Ond ei brif ddiddordeb oedd gwyddor hedfan. Bu wrthi am dros chwarter canrif yn pendroni uwchben y broblem a bu'n treulio misoedd bwygilydd ymhlith adar, chwilod a gwenyn yn dyfal wylio eu symudiadau trwy ddefnyddio chwyddwydr neu 'fwyadur' fel y galwai ef. Y broblem a'i hwynebai oedd – pam fod ganddynt gyrff mor drwm ac adenydd mor fychain?

Cafodd y syniad o ddyfeisio propelar ac aeth ati i osod y cynllun ar bapur. Nid hynny'n unig ond penderfynodd anfon y cynllun at arbenigwyr y swyddfa batent yn Llundain. Daeth ateb yn dweud iddynt dderbyn ei gynlluniau cyntaf ar gyfer "A Propeller or Driving Wheel to put in motion vehicles, boats and flying machines" ar Hydref 14, 1916. Ymhen blwyddyn derbyniwyd y cyfan o'i syniadau.

Ceir ganddo ddisgrifiad manwl o'r ddyfais ynghyd â diagram.

Bu yn ei fryd gynllunio a saernïo awyren (gleidar, yn ôl ei wyres) a dywedir i rai gwŷr tra phwysig ymweld ag ef ynglŷn â'r fenter ond, o ddiffyg cefnogaeth ariannol, lleateiriwyd y bwriad.

Ymhen llai na deufis wedi derbyn y cynllun gwreiddiol gan y swyddfa batent yr oedd Lloyd George wedi dod yn Brif Weinidog. Tybed a wnaed defnydd o ddyfais Hywel Tudur gan y Llywodraeth? A ddaethpwyd ag ef i sylw'r Prif Weinidog? Pwy a ŵyr – efallai y byddai ei fabwysiadu wedi byrhau'r rhyfel.

* * *

CYMERIAD hamddenol a di-ffrwst oedd Hywel Tudur. Byddai'n ddiarhebol am golli trên ond ni chynhyrfid mohono. 'Does dim dadl nad oedd yn amryddawn.

Bu a wnelo â chynllunio a chodi Bryn Eisteddfod, Clynnog, sef ei dŷ ei hun, addoldy Capel Uchaf, ysgol a thŷ'r ysgol yng Nghlynnog fel y gallesid eu haddasu i fod yn dai. (Digwyddodd hyn bellach).

Y mae sôn mai ef a ddyfeisiodd y ganhwyllbren gyda gefail i ddal y gannwyll a theclyn a alluogai giard trên i agor a chau'r drysau heb adael y fan – er nad oes sicrwydd am hyn.

Mynych y soniai wrth drigolion Capel Uchaf a Chlynnog am ddyfais debyg i deledydd ac awyrennau'n hedfan i bellteroedd byd. Cyfrannai, o dro i dro, i newyddiaduron a chylchgronau Cyfundeb yr Hen Gorff a hynny mewn arddull gartrefol rywiog.

Ar y cyd â William Jones, Bryn Gwydion, fe gasglodd a chyhoeddi *Gweithiau Eben Fardd* (1873?), *Tlysau Beuno* (1902) a'r casgliad poblogaidd a difyr hwnnw, *Llyfr Genesis i Blant* (1906) sef casgliad o hanesion o'r llyfr hwnnw wedi eu llunio ar gân ar gyfer plant rhwng 3 a 15 oed. Chwe cheiniog oedd ei bris a bu llawer o ddefnydd ohono.

Ar wahân i fugeilio'r praidd yn eglwysi Capel Uchaf, Ebeneser, Clynnog a'r Gyrn Goch (ei unig ofalaeth) bu hefyd yn ffermio peth yn Hafod y Wern. Merch y fferm honno oedd ei wraig gyntaf. Ganwyd iddynt bump o blant – yn eu plith y Parchedig Edwyn Wyn Roberts (1872-1961).

Wedi marw ei wraig priododd chwaer y Parchedig R.Dewi Williams – un arall o ardal Pandy Tudur – awdur y gyfrol *Clawdd Terfyn* a dreuliodd dros ugain mlynedd fel Pennaeth Ysgol Clynnog (Ysgol Eben Fardd) cyn symud i'r Rhyl. Bu ganddynt fab a merch.

Erys un dirgelwch ynglŷn â Hywel Tudur sef pa bryd ac ym mhle yr ordeiniwyd ef? Ni chrybwylla'r Parchedig Ddr John Owen, Morfa Nefyn, air am hynny yn ei goffâd iddo yn 'Y Goleuad'. Bu Hywel Tudur fyw mewn hamdden a marw ar y trydydd o Fehefin 1922.